Archwiliad CDLl Newydd Caerdydd

Trafnidiaeth

Pwynt Gweithredu HS12.2

Y Cyngor i adolygu testun ategol Polisi SP19, gyda chyfeiriad penodol at baragraff 6.154 a'r cyfeiriad at gapasiti ychwanegol ar gyfer mynediad ar y ffordd. Wrth adolygu'r testun ategol, dylai'r Cyngor fanteisio ar y cyfle i ddiweddaru disgrifiad a phwrpas cynllun Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae yn unol â'r sefyllfa ddiweddaraf.

Ymateb y Cyngor

Awgrymu diwygio paragraff 6.154 fel a ganlyn (dangosir y testun diwygiedig wedi'i danlinellu):

6.154 ~~Mae Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae yn ddyhead hirsefydlog gan y Cyngor ac mae wedi'i chynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (CTDDdC/Sewta). Byddai'r ffordd yn cwblhau ffordd ddosbarthu amgylchynol sy'n rhedeg rhwng Cyffordd 33 yr M4 yng ngogledd-orllewin Caerdydd a Chyfnewidfa Llanedern yn nwyrain y ddinas. Byddai'n darparu capasiti ychwanegol i fynediad ar y ffyrdd i Ardal Fenter Canol Caerdydd o'r dwyrain a datblygiadau ategol yn yr ardal honno. Nid oes manylion am y gwaith arfaethedig ar gael ar hyn o bryd felly mae'r Map Cyfyngiadau yn nodi hyd Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae yn rhedeg o gylchfan Parc y Cefnfor i'r A48, Rhodfa'r Dwyrain.~~ Mae Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae o Dwneli Butetown i Gyfnewidfa Llanedern yn ddyhead hirsefydlog gan y Cyngor ac mae wedi'i gynnwys yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh). Byddai'n gwella mynediad, diogelwch ar y ffyrdd, cyfleusterau teithio llesol a chyfleoedd ar gyfer datblygu yn yr ardal honno. Nid oes manylion am y gwaith arfaethedig ar gael ar hyn o bryd, felly mae'r Map Cyfyngiadau yn nodi hyd Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae.